# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

## Cofnodion: HWLG(3)-12-10 : 24 Mehefin 2010

Mae modd gweld y cyfarfod hwn ar Senedd TV yn: http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400004_24_06_2010&t=0

**Amser: 12.49 - 15.05**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Darren Millar, Gorllewin Clwyd (Cadeirydd)
Andrew R.T. Davies, Canol De Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Peter Black, Gorllewin De Cymru
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Irene James, Islwyn
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Val Lloyd, Dwyrain Abertawe

### Tystion

Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Eitem 2)
Reg Kilpatrick, Pennaeth Is-adran Polisi Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru (Eitem 2)
David Powell, Pennaeth Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru (Eitem 2)

Yr Athro Hugh Pennington, Cadeirydd yr Ymchwiliad Cyhoeddus E.coli (Eitem 3)

Maria Battle, Uwch Gyfarwyddwr, Llais Defnyddwyr Cymru (Eitem 4)
Jennie Bibbings, Uwch Eiriolwr Polisi, Llais Defnyddwyr Cymru (Eitem 4)

### Staff y Pwyllgor

Marc Wyn Jones, Clerc
Sarita Marshall, Dirprwy Glerc

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriad gan Helen Mary Jones.

### Eitem 2: Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol - sesiwn graffu gyffredinol

**Papur: HWLG(3)-12-10(p.1)**

2.1 Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyffredinol â Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

**Camau i'w cymryd**

Y Gweinidog i rannu gyda'r Pwyllgor yr araith a gyflwynodd i Gynhadledd ddiweddar Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Swyddogion y llywodraeth i ymchwilio a fyddai modd i bwerau i gyfarwyddo llywodraeth leol i gydweithio gael eu hychwanegu at y Mesur Llywodraeth Leol sydd i ddod ac i rannu eu casgliadau â'r Pwyllgor.

Y Pwyllgor i ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru i ofyn iddo/iddi ymchwilio i oblygiadau ariannol unrhyw ad-drefnu ym maes llywodraeth leol.

Y Gweinidog i adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor ar oblygiadau ariannol unrhyw gamau sydd i'w cymryd i sicrhau gwelliannau mewn llywodraeth leol.

### Eitem 3: Gweithredu Adroddiad Pennington - argymhellion

**Papur: HWLG(3)-12-10(p.2)**

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Hugh Pennington ar weithredu argymhellion Adroddiad Pennington ar yr achosion E.coli yn 2005. Roedd y sesiwn dystiolaeth yn canolbwyntio ar yr ymateb i'r argymhellion; ariannu; Cynlluniau Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol; iechyd yr amgylchedd; ac effaith yr achosion ar ymddiriedaeth y cyhoedd.

### Eitem 4: Gweithredu Argymhellion Adroddiad Pennington

**Papur: HWLG(3)-12-10(p.3)**

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Lais Defnyddwyr Cymru, a oedd yn canolbwyntio ar yr ymateb i argymhellion Adroddiad Pennington; ariannu; cynlluniau dadansoddi peryglon a phwynt rheoli critigol; a rôl Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill.

**Cam i'w gymryd**

Unrhyw ganllawiau ar weithredu argymhellion Adroddiad Pennington i gael eu rhannu â'r Pwyllgor pan fyddent wedi'u llunio.

### Eitem 5: Ymchwiliadau posibl ar gyfer y dyfodol

**Papur: HWLG(3)-12-10(p.4)**

5.1 Gwnaeth y Cadeirydd gynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37, i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, i drafod materion yn ymwneud â blaenraglen waith y Pwyllgor.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

### 6: Papurau i'w nodi

6.1 Nododd y Pwyllgor y papurau a ganlyn:

HWLG(3)-12-10-p5 Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

HWLG(3)-12-10-p6 Cyflwyniad gan Sharon Mills

HWLG(3)-12-10-p7 Cyflwyniad gan Julie Price

HWLG(3)-11-10-Cofnodion y cyfarfod blaenorol